## POLISI A GWEITHDREFN GWYNION UNDEB ABERYSTWYTH

### 1. Beth yw Cwyn?

1.1. At ddiben y polisi hwn, diffinnir cwyn fel 'mynegiant o anfodlonrwydd neu bryder gan un neu fwy o unigolion ynghylch rhywbeth y mae Undeb Aberystwyth, un o'n grwpiau, staff neu aelodau wedi'i wneud neu heb ei wneud, neu ynghylch safon y gwasanaeth a ddarperir gan neu ar ran Undeb Aberystwyth'.

1.2. Yn ymarferol, gall hyn fod ar nifer o ffurfiau:

- Rhoi adborth i Undeb y Myfyrwyr – rhannu eich barn ar rywbeth heb ddisgwyl datrysiad na chanlyniad;
- Codi pryderon a phroblemau'n anffurfiol – er enghraifft rhannu eich pryderon am ymddygiadau neu sefyllfa benodol heb ymchwiliad ffurfiol;
- Gwneud cwyn ffurfiol ynghylch Undeb y Myfyrwyr ei hun e.e. digwyddiad, gwasanaeth neu gynnyrch;
- Gwneud cwyn ffurfiol ynghylch grŵp myfyrwyr;
- Gwneud cwyn ffurfiol ynghylch unigolyn neu unigolion e.e. Swyddog Llawn-amser, aelod o staff, arweinydd grŵp myfyrwyr, gwirfoddolwr neu fyfyriwr.

### 2. Pam mae gennym ni Bolisi Cwynion?

2.1. Ein nod ni (Undeb Aberystwyth) yw darparu profiad cadarnhaol i bob myfyriwr, aelod staff ac ymwelydd, ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau o ansawdd uchel. Pan fyddwn ni'n cael pethau o chwith, rydym ni eisiau eu cywiro a dysgu o'n camgymeriadau.

2.2. Rydym yn gosod gwerth ar gydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, ac yn disgwyl i unigolion gael eu trin â pharch, a bod ystyriaeth i'w teimladau. Rydym yn disgwyl i bob aelod o staff, myfyriwr ac ymwelydd ymddwyn â gonestrwydd ac uniondeb.

2.3. Rydym yn cydnabod y gallech fod eisiau rhoi adborth neu gwyno ynghylch agwedd ar ein gwaith neu roi gwybod i ni am unrhyw bryderon. Dylech deimlo'n rhydd i godi'r pryderon hyn. Rydym yn defnyddio adborth a chwynion i'n helpu i wella, a bydd unrhyw bryderon, gan gynnwys amheuaeth o dwyll neu anonestrwydd, yn cael eu hymchwilio.

### 3. Cyn Cyflwyno Cwyn Ffurfiol Ar-lein

3.1. Lle bynnag y bo modd, ein nod yw datrys cwynion yn anffurfiol.

3.2. Os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus i wneud hynny, dylech chi geisio datrys eich cwyn yn anffurfiol trwy siarad â'r person mwyaf perthnasol. Gallai'r person perthnasol fod:

- Y person rydych chi'n anfodlon â nhw (os yw eich cwyn yn ymwneud ag ymddygiad unigolyn).
- Rheolwr yr aelod staff neu'r gwasanaeth (os yw eich cwyn yn ymwneud ag Undeb y Myfyrwyr).
- Arweinydd y grŵp myfyrwyr neu'r digwyddiad (os yw eich cwyn yn ymwneud â grŵp myfyrwyr).
- Neu unrhyw aelod arall o staff Undeb Aberystwyth.

3.3. Cyn belled ag y bo modd, bydd staff Undeb Aberystwyth yn gweithio gyda chi i ddatrys problemau'n anffurfiol. Gallai hyn gynnwys cyfryngu neu gywiro'r broblem ein hunain e.e. trwy ad-daliad.

3.4. Os ydych chi'n dal yn anfodlon ar ôl hynny, neu os nad ydych chi'n teimlo'n gyfforddus i siarad yn uniongyrchol â'r person mwyaf perthnasol yn y lle cyntaf, neu os yw'r gŵyn o natur ddifrifol, gallwch gyflwyno cwyn fel y manylir isod.

3.5. Rydym yn datrys cwynion gan ddefnyddio proses ffurfiol sy'n cynnwys ymchwiliad trylwyr a theg.

## 4. Cwynion y byddwn yn ymchwilio iddynt

4.1. Gallwch wneud cwyn am unrhyw un o'r canlynol:

- Undeb y Myfyrwyr ei hun e.e. digwyddiad, gwasanaeth, gwefan, penderfyniad a.y.b.
- Grŵp myfyrwyr;
- Unigolyn neu unigolion e.e. Swyddog Llawn-amser, aelod o staff, arweinydd grŵp myfyrwyr, gwirfoddolwr neu fyfyriwr sy'n ymwneud â'n gweithgareddau.

4.2. Er mwyn helpu Undeb y Myfyrwyr i ymchwilio ac ymateb yn effeithiol, yn ddelfrydol dylid codi eich cwyn cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad, y mater neu'r sefyllfa sy'n destun eich cwyn. Rydym yn sylweddoli y gallai fod yna resymau penodol pam na allwch chi wneud hyn bob amser (er enghraifft, os mai dim ond yn ddiweddarach y byddwch yn darganfod gwybodaeth berthnasol). Os oes oedi sylweddol wrth godi eich pryder, dylech esbonio'r rheswm dros hyn yn y gŵyn gychwynnol. Os teimlwn fod oedi afresymol wrth godi eich cwyn wedi llesteirio ein gallu i ymchwilio i'ch achos neu ei reoli, efallai na fyddwn yn gallu ymchwilio, a byddwn yn egluro hyn i chi.

4.3. Er mwyn galluogi Undeb y Myfyrwyr i ymchwilio ac ymateb yn effeithiol, mae angen lefel rhesymol o fanylion yn eich cwyn. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth megis pryd y digwyddodd yr hyn rydych chi'n cwyno amdano, beth ddigwyddodd yn benodol (gydag enghreifftiau lle bo modd), ac amseroedd a dyddiadau perthnasol. Sylwer, efallai na fyddwn yn gallu ymchwilio i gwynion a fynegir fel pryderon cyffredinol neu ddatganiadau eang yn unig am ymddygiad heb enghreifftiau penodol.

4.4. Byddwn yn derbyn cwynion a godir gan unrhyw un a allai fod â rheswm i gwyno am ein gwasanaethau / gweithgareddau, grwpiau myfyrwyr neu aelodau. Gall y broses a ddilynwn ddibynnu ar eich perthynas ag Undeb y Myfyrwyr e.e. myfyriwr, cydweithiwr yn y Brifysgol, aelod o'r gymuned a.y.b. Dylai'r rhai a gyflogir gan Undeb y Myfyrwyr neu Swyddogion Llawn-amser gyfeirio at y polisi cwynion staff i godi unrhyw bryderon neu gwynion.

## 5. Cwynion na fyddwn yn ymchwilio iddynt

5.1. Mae Undeb Aberystwyth yn annibynnol ar Brifysgol Aberystwyth ac ni all ymchwilio i gŵyn am y Brifysgol, ei gwasanaethau na'i staff.

5.2. Os ydych chi'n fyfyriwr, gallwch gwyno i'r Brifysgol gan ddefnyddio'r gwasanaethau canlynol:

- **Ymddygiad Annerbyniol** - os ydych chi'n teimlo bod unrhyw aelod o gymuned y Brifysgol wedi ymddwyn mewn modd annerbyniol, boed ar safle'r Brifysgol neu oddi arno, gallwch gyflwyno cwyn gan ddefnyddio ffurflen gwynion y brifysgol.
- **Camymddwyn Rhywiol** – os oes gennych chi bryder ynghylch UNRHYW fath o gamymddwyn rhywiol gan aelod o'r Brifysgol, cysylltwch â'r tîm Trais a Chamymddwyn Rhywiol yn yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr yn uniongyrchol, am gymorth a chyngor. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y tudalennau Trais Rhywiol a Chamymddygiad.
- **Gwasanaeth neu weithred y brifysgol** – os oes gennych chi gŵyn am weithredu neu ddiffyg gweithredu gan y Brifysgol, neu am safon y gwasanaeth a ddarperir gan neu ar ran y Brifysgol (er enghraifft neuaddau) gallwch ddilyn gwybodaeth ar y tudalennau hyn.

5.3. Gall Undeb Aberystwyth eich helpu i wneud cwyn i'r Brifysgol:

- Gall ein cynghorwyr eich helpu i feddwl am y ffordd fwyaf priodol o godi'r mater ac os oes angen, eich cynorthwyo i wneud hynny.
- Gall ein Swyddogion Llawn-amser ddwyn materion cyffredinol i sylw'r Brifysgol neu gyrff allanol. Gallwch gysylltu ag un o'ch cynrychiolwyr myfyrwyr, a all eirioli dros newidiadau i bolisi neu arfer a fyddai'n arwain at ganlyniad gwell i fyfyrwyr. Mae hyn yn tueddu i fod fwyaf effeithiol pan fydd y mater dan sylw yn effeithio ar nifer fwy o fyfyrwyr, e.e. cwrs cyfan neu bob myfyriwr mewn llety penodol.
- Gall eich Cynrychiolydd Academaidd neu gynrychiolwyr etholedig eraill godi materion sy'n effeithio ar gwrs neu grŵp blwyddyn gyfan.

5.4. Pan fydd mater yn cael ei ymchwilio gan yr Heddlu neu'r Brifysgol, fel arfer ni fydd Undeb y Myfyrwyr yn ymchwilio nes bod ymchwiliadau o'r fath wedi'u cwblhau. Serch hynny, gall gymhwyso mesurau rhagofalus yn ystod yr ymchwiliad a/neu ganlyniad disgyblu yn seiliedig ar ganfyddiadau a chanlyniad unrhyw ymchwiliad / proses allanol.

5.5. Nid ydym fel arfer yn gallu ymchwilio i gwynion dienw, gan fod angen digon o wybodaeth arnom a'r gallu i egluro manylion â'r person sy'n codi'r pryder. Gellir cofnodi cwynion dienw at ddibenion monitro, ond heb wybodaeth adnabyddadwy mae'n annhebygol y gellir darparu ymchwiliad llawn na chanlyniad.

## 6. Ystyriaeth gychwynnol o gwynion

6.1. Pan dderbynnir cwyn, gall Undeb y Myfyrwyr gynnull Panel Asesu Risg i benderfynu ar ddifrifoldeb y mater a beth fyddai'r dull mwyaf priodol ar gyfer ymdrin â'r sefyllfa. Bydd y Panel yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd ac yn penderfynu ar y camau nesaf mwyaf addas, a all gynnwys:

6.1.1. **Datrysiad anffurfiol** – lle ystyrir bod y mater yn un lefel-isel a gellir ei ddatrys orau trwy ddeialog, eglurhad neu gefnogaeth heb ymchwiliad ffurfiol.

6.1.2. **Ymchwiliad ffurfiol** – lle mae'r gŵyn yn ei gwneud yn ofynnol i gasglu ffeithiau pellach a chynnal proses ymchwilio strwythuredig.

6.1.3. **Atgyfeiriad i'r Brifysgol** – lle ystyrir bod y gŵyn yn ddifrifol, megis honiadau o aflonyddu, camwahaniaethu, pryderon diogelu, neu o bosib torri rheoliadau'r Brifysgol.

6.2. Bydd y Panel Asesu Risg yn gwneud ei benderfyniad yn unol â chanllawiau Undeb y Myfyrwyr ar gwynion, sy'n amlinellu'r gwahaniaeth rhwng materion difrifol a materion llai difrifol.

## 7. Cwynion am Undeb y Myfyrwyr – digwyddiad, gweithgaredd, gwasanaeth, penderfyniad a.y.b.

7.1. Os oes gennych chi gŵyn am wasanaeth, digwyddiad, gweithgaredd, penderfyniad neu wybodaeth sy'n ymwneud ag Undeb y Myfyrwyr na allwch ei datrys yn anffurfiol, dylech gofrestru eich cwyn.

7.2. Ar y ffurflen hon, gofynnir i chi a ydych am gyflwyno eich pryder fel adborth (os ydych chi'n rhoi gwybod i ni am rywbeth, ond nad ydych chi'n disgwyl unrhyw ddatrysiad nac ymchwiliad) neu a ydych chi am ei gyflwyno fel cwyn ffurfiol (os ydych chi am i ni ymchwilio ac ymateb yn ffurfiol).

7.3. Os ydych chi am gwyno'n ffurfiol, gofynnir i chi egluro'r canlyniad rydych chi ei eisiau. Gallai hyn fod yn ad-daliad, ymddiheuriad neu i ni newid rhywbeth am ein gwasanaeth.

7.4. Yn dibynnu ar natur a chyd-destun eich cwyn, caiff ei dyrannu i Reolwr priodol o fewn Undeb y Myfyrwyr a fydd yn ymchwilio i'r gŵyn.

7.5. Bydd y Rheolwr Ymchwilio yn penderfynu ar y ffeithiau, yn ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol ac yn penderfynu ar y canlyniad priodol. Yn dibynnu ar ddifrifoldeb y gŵyn, efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi i ofyn am wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol.

7.6. Fel arfer, bydd y Rheolwr Ymchwilio'n cysylltu â chi o fewn 14 diwrnod calendr o'ch cwyn i ddarparu ymateb i'ch cwyn. Os oes angen unrhyw estyniad i'r amserlen hon, bydd y Rheolwr Ymchwilio yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

7.7. Os ydych chi'n anfodlon â'r ymateb i'ch cwyn, gallwch apelio yn erbyn y canlyniad trwy ysgrifennu at Swyddfa Gwynion Undeb y Myfyrwyr undebcomplaints@aber.ac.uk. Dylech gyflwyno eich apêl o fewn 7 diwrnod calendr i dderbyn y canlyniad gwreiddiol o'ch cwyn. Rhaid i chi amlinellu'r rhesymau pam rydych chi am apelio a sut maen nhw'n bodloni'r sail ofynnol ar gyfer apelio.

7.8. Bydd eich apêl yn cael ei dyrannu i aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth (nad yw wedi bod yn rhan o'ch cwyn o'r blaen). Byddant yn adolygu eich cwyn wreiddiol, yr ymchwiliad a'r ymateb, ac yna'n ateb i chi gyda chanlyniad i'ch apêl o fewn 14 diwrnod calendr o'r dyddiad y gwnaethoch chi gyflwyno'ch apêl.

7.9. Mae canlyniad yr apêl yn cynrychioli cam olaf gweithdrefn gwyno Undeb y Myfyrwyr. Unwaith y bydd apêl wedi'i hystyried a phenderfyniad wedi'i gyfleu, ystyrir bod y mater wedi'i gau ac ni dderbynnir unrhyw gwynion pellach ynghylch yr un mater.

## 8. Cwyn am Grŵp Myfyrwyr

8.1. Os oes gennych chi gŵyn am grŵp myfyrwyr na allwch ei datrys yn anffurfiol, dylech gofrestru eich cwyn.

8.2. Ar y ffurflen hon, gofynnir i chi amlinellu natur eich pryder a darparu manylion ynghylch gwybodaeth a thystiolaeth benodol sy'n berthnasol i'ch cwyn. Gofynnir i chi hefyd egluro'r canlyniad rydych chi ei eisiau. Mae gennym Gôd Ymddygiad ar gyfer grwpiau myfyrwyr sydd. Lle gallwch, dylech dynnu sylw at ym mha ffordd mae'r Côd hwn wedi'i dorri yn eich barn chi.

8.3. Yn dibynnu ar natur a chyd-destun eich cwyn, caiff ei dyrannu i reolwr neu aelod staff priodol o fewn tîm Cyfleoedd Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr a fydd yn ymchwilio i'r gŵyn.

8.4. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn penderfynu ar y ffeithiau, yn ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol ac yn penderfynu ar y canlyniad priodol. Yn dibynnu ar ddifrifoldeb y gŵyn, efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi i ofyn am wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol.

8.5. Fel arfer, gallwch ddisgwyl derbyn canlyniad i'ch cwyn o fewn 30 diwrnod calendr. Os oes unrhyw amrywiad i hyn (er enghraifft, oherwydd oedi wrth siarad â thystion) yna gellir ymestyn yr amserlen. Bydd y Swyddog sy'n ymchwilio i'r gŵyn yn eich hysbysu am unrhyw estyniad i'r amserlen. Os yw canlyniad eich cwyn yn cynnwys camau disgyblu yn erbyn y grŵp myfyrwyr (neu unigolion), byddwch yn cael gwybodaeth gyffredinol, ond efallai na chewch fanylion penodol am y camau a gymerwyd.

8.6. Os ydych chi'n anfodlon â'r ymateb i'ch cwyn, gallwch apelio yn erbyn y canlyniad trwy ysgrifennu at Swyddfa Gwynion Undeb y Myfyrwyr undebcomplaints@aber.ac.uk. Dylech gyflwyno eich apêl o fewn 7 diwrnod calendr i dderbyn y canlyniad gwreiddiol o'ch cwyn. Amlinellwch y rhesymau pam rydych chi am apelio.

8.7. Bydd eich apêl yn cael ei dyrannu i aelod o'r tîm rheoli (nad yw wedi bod yn rhan o'ch cwyn o'r blaen). Byddant yn adolygu eich cwyn wreiddiol, yr ymchwiliad a'r ymateb, ac yna'n ateb i chi gyda chanlyniad i'ch apêl o fewn 14 diwrnod calendr o'r dyddiad y gwnaethoch chi gyflwyno'ch apêl.

8.8. Mae canlyniad yr apêl yn cynrychioli cam olaf gweithdrefn gwyno Undeb y Myfyrwyr. Unwaith y bydd apêl wedi'i hystyried a phenderfyniad wedi'i gyfleu, ystyrir bod y mater wedi'i gau ac ni dderbynnir unrhyw gwynion pellach ynghylch yr un mater.

## 9. Cwynion am unigolyn (myfyriwr, arweinydd grŵp myfyrwyr, gwirfoddolwr, aelod o staff, Swyddog Llawn-amser)

9.1. Os oes gennych chi gŵyn am unigolyn, neu unigolion, na allwch ei datrys yn anffurfiol, dylech gofrestru eich cwyn.

9.2. Ar y ffurflen hon gofynnir i chi amlinellu natur eich pryder a darparu manylion gwybodaeth a thystiolaeth benodol sy'n berthnasol i'ch cwyn. Gofynnir i chi hefyd egluro'r canlyniad rydych chi ei eisiau.

9.3. Byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o'ch cwyn gan Swyddog Cwynion Undeb y Myfyrwyr, a fydd yn cadarnhau manylion y broses a'r amserlenni disgwyliedig. Byddant hefyd yn rhoi manylion i chi am y Swyddog a fydd yn ymchwilio i'r honiadau / y gŵyn.

9.4. Rydym yn gweithredu Côd Ymddygiad Aelodau a disgwylir i bob myfyriwr ac aelod cyswllt gydymffurfio â'r côd hwnnw. Os yw eich cwyn yn ymwneud ag ymddygiad aelod, bydd eich achos yn cael ei ymchwilio a'i reoli o dan Bolisi a Gweithdrefn Disgyblu'r Aelodau.

9.5. Os yw eich cwyn ynghylch ymddygiad aelod o staff, Swyddog Llawn-amser neu Ymddiriedolwr, bydd eich honiadau'n cael eu hymchwilio a'u rheoli gan ddefnyddio ein polisïau a'n protocolau staff ar wahân.

9.6. Os yw eich honiadau o natur ddifrifol ac yn ymwneud â myfyriwr yn y Brifysgol, byddai'r Brifysgol fel arfer yn ymchwilio i hyn. Yn yr achosion hyn, byddem yn cyfeirio'r gŵyn at y Brifysgol a gofyn iddyn nhw ymchwilio. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn ac yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol y gallai fod angen i chi fod yn ymwybodol ohoni.

9.7. Yn dibynnu ar natur a chyd-destun eich cwyn, gall y Swyddog Ymchwilio ofyn am gyfarfod â chi i gasglu rhagor o wybodaeth.

9.8. Bydd y Swyddog sy'n ymchwilio i'r gŵyn yn gwneud hynny'n ddoeth ac yn rhannu manylion ar sail yr angen i wybod yn unig. Bydd angen rhannu rhai manylion ynghylch y gŵyn gydag eraill er mwyn ymchwilio'n effeithiol. Bydd y Swyddog sy'n cynnal yr ymchwiliad yn trafod hyn gyda chi.

9.9. Bydd y Swyddog Ymchwilio'n sefydlu'r ffeithiau, yn casglu tystiolaeth ac yn cwrdd â thystion. Byddant yn cynhyrchu adroddiad am yr ymchwiliad, a fydd yn argymell y camau nesaf a allai gynnwys:

- Ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach;
- Y dylid delio â'r mater yn anffurfiol trwy anfon llythyr rhybudd anffurfiol at yr ymatebydd;
- Gofyn am gymryd camau anffurfiol eraill gan gynnwys sgwrs anffurfiol, hyfforddiant, canllawiau, cyfryngu a/neu ofyn am ymddiheuriad;
- Y dylid delio â'r mater yn ffurfiol a'i symud ymlaen i wrandawiad disgyblu ar gyfer yr ymatebydd.

9.10. Fel arfer, gallwch ddisgwyl derbyn canlyniad i'ch cwyn o fewn 30 diwrnod calendr. Os oes unrhyw amrywiad i hyn (er enghraifft, oherwydd oedi wrth siarad â thystion) yna gellir ymestyn yr amserlen. Bydd y Swyddog sy'n ymchwilio i'r gŵyn yn eich hysbysu am unrhyw estyniad i'r amserlen.

9.11. Os ydych chi'n anfodlon â chanlyniad eich cwyn, gallwch apelio yn erbyn y canlyniad trwy ysgrifennu at Swyddog Cwynion Undeb y Myfyrwyr undebcomplaints@aber.ac.uk. Dylech gyflwyno eich apêl o fewn 7 diwrnod calendr i dderbyn y canlyniad gwreiddiol o'ch cwyn. Rhaid i chi amlinellu'r rhesymau pam rydych chi am apelio a sut maen nhw'n bodloni'r sail ofynnol ar gyfer apelio. Bydd eich apêl yn cael ei rheoli yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Disgyblu'r Aelodau.

## 10. Cymorth Llesiant

10.1. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi llesiant ein myfyrwyr gan gynnwys y sawl sy'n adrodd (cwynwyr), ymatebwyr, tystion a phobl eraill sy'n ymwneud â chwynion a honiadau o gamymddwyn.

10.2. Os hoffech archwilio eich opsiynau o ran cymorth llesiant, codwch hyn gyda'r Swyddog Ymchwilio sy'n ymwneud â'ch cwyn. Byddan nhw'n trafod hyn gyda chi ac yn rhannu opsiynau posibl.

10.3. Os oes gennym ni bryderon ynghylch eich llesiant neu iechyd meddwl, er enghraifft oherwydd natur cwyn, efallai y byddwn yn gwneud atgyfeiriad awtomatig at Dîm Llesiant y Brifysgol. Mae'n bosib y byddan nhw'n cysylltu â chi i gynnig cefnogaeth.

## 11. A fydd eich Cwyn yn cael ei Chadw'n Gyfrinachol?

11.1. Er mwyn delio â chwynion ffurfiol yn llawn ac yn deg, fel arfer bydd angen datgelu pwy yw'r achwynydd i'r rhai sy'n ymwneud â'r ymchwiliad a'r penderfyniad ynghylch y canlyniad. Os yw eich cwyn yn ymwneud â rhywun arall, fel arfer bydd ganddyn nhw hawl i wybod pwy sydd wedi cwyno amdanyn nhw, yn enwedig os yw'r gŵyn yn mynd ymlaen i wrandawiad disgyblu.

11.2. Trwy gydol ymchwiliadau, rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â'r achos gynnal cyfrinachedd a disgresiwn, waeth beth fo natur y digwyddiad.

## 12. Sut mae'r Data am fy Nghwynion yn cael ei Reoli?

12.1. Bydd y cofnodion (gan gynnwys negeseuon e-bost, tystiolaeth, data personol) yn cael eu cadw yn unol â'n Polisi Diogelu Data.

12.2. Ar ôl y cyfnod hwn, byddwn yn dileu'r holl fanylion personol ac yn cadw cofnod sylfaenol o'r gŵyn a'r canlyniad yn unig at ddibenion cwynion yn y dyfodol ac er mwyn gwella gwasanaethau a gweithgareddau Undeb Aberystwyth.

12.3. Bydd gwybodaeth am gwynion yn cael ei storio'n ddiogel ar gronfa ddata a'i chadw yn y blwch post e-bost cwynion, â mynediad ar gael i staff perthnasol yn unig.